Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru 2007

1. Penderfynodd y Pwyllgor ei fod am graffu ar y rheoliadau hyn ac fe'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor ar gyfer ei gyfarfod ar 30 Tachwedd. Fe'u hystyriwyd yn unol â'r protocol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth y cytunodd y Pwyllgor arno ar 11 Mehefin 2003, sef bod yr Aelodau yn rhoi gwybod ymlaen llaw am unrhyw ymholiadau ynghylch y Rheoliadau ac unrhyw welliannau y maent am eu gwneud iddynt.

2. Ni chynigiwyd unrhyw welliannau gan yr Aelodau, ond cododd Jenny Randerson AC bwynt o eglurhad ynghylch Rhan VI paragraff 16. Gofynnodd a oedd bwriad rhoi adroddiad blynyddol i'r Cynulliad yn ogystal â Phrif Weinidog Cymru.

3. Wrth ymateb, cydnabu'r Dirprwy Weinidog nad oedd is-baragraffau (1) a (2) paragraff 16 yn gyson. Câi paragraff 16(2) ei newid er mwyn cyfeirio at y Cynulliad yn hytrach na Phrif Weinidog Cymru.

4. Ar wahân i'r newid hwn, roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r rheoliadau fel ag y'u drafftiwyd.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd
Rhagfyr 2006